

Tribiwnlys Anghenion
Addysgol Arbennig Cymru



Special Educational
Needs Tribunal for Wales

Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig
Cais am Apêl

Mae'n bwysig eich bod yn darllen ein llyfryn canllaw, *Sut i wneud apêl (TAAAC1)* cyn llenwi'r ffurflen hon.

Llenwch y ffurflen hon yn glir gan ddefnyddio inc **DU**.

Os nad oes gennych gynrychiolydd neu berson arall i'ch helpu i lenwi'r ffurflen, cysylltwch â'n llinell gymorth ar **0300 025 9800** a byddwn yn eich helpu i'w llenwi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.

Mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i'r Tribiwnlys.

1. Dewis iaith

A fyddai'n well gennych ohebu â ni yn:	Cymraeg	Saesneg	Y ddwy iaith
A fyddai'n well gennych gyfathrebu â ni ar lafar yn:	Cymraeg	Saesneg	Y ddwy iaith
A fyddai'n well gennych siarad Cymraeg neu Saesneg yn eich Gwrandawriad Tribiwnlys?	Cymraeg	Saesneg	Y ddwy iaith

2. Ieithoedd a Siaredir

Pa ieithoedd ydych chi'n eu defnyddio i gyfathrebu? Cymraeg Saesneg Arall
(Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

3. Rydym am gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y Tribiwnlysoedd. Os ydych chi'n gallu siarad Cymraeg, ac wedi nodi Saesneg fel eich dewis iaith, oes yna reswm penodol pam eich bod chi wedi dewis cyfathrebu yn Saesneg?

(Ni fydd eich ateb yn effeithio ar sylwedd eich achos mewn unrhyw ffordd)

Adran 1 – Gwybodaeth am y plentyn

Mae'r apêl yn ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc canlynol:

Enwau cyntaf:

Cyfenw:

Dyddiad geni:

Bachgen
neu Ferch:

Nodwch fod pob cyfeiriad yn y canllaw hwn at **y plentyn** yn golygu'r plentyn neu'r person ifanc y mae'r apêl yn ymwneud ag ef.

Adran 2 – Gwybodaeth am y person sy'n gwneud yr apêl

Gwneir yr apêl hon gan:

Teitl:

Cyfenw:

Enwau Cyntaf:

Esboniwch sut mae gennych hawl i wneud yr apêl hon. Er enghraifft, dywedwch os ydych:

- a) **Yn rhiant y plentyn**, yn ymarfer hawl rhiant i wneud apêl (dylech ddweud hefyd a ydych yn warcheidwad, rhiant maeth neu yn berson arall gyda chyfrifoldeb rhiant), **neu**
- b) **Y plentyn**, yn ymarfer hawl y plentyn i wneud ei apêl ef neu hi ei hun, **neu**
- c) **Cyfaill achos y plentyn**, yn ymarfer hawl y plentyn i wneud ei apêl ef neu hi ei hun.

Cyfeiriad (a chod post):

Rhif ffôn dydd:

min nos:

Symudol:

Ffacs:

Cyfeiriad e-bost:

Adran 3 – Gwybodaeth am bobl sydd â chyfrifoldeb rhiant neu sy'n rhannu cyfrifoldeb rhiant am y plentyn

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym enwau a chyfeiriadau'r holl bersonau a sefydliadau sydd wedi neu sydd yn rhannu cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal am y plentyn.

Mae'n rhaid i chi hefyd roi gwybod i bob person a sefydliad sydd â neu sy'n rhannu cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal am y plentyn, eich bod yn bwriadu gwneud apêl i'r Tribiwnlys.

Rhaid cyflwyno llythyr eich bod wedi hysbysu'r holl bersonau a sefydliadau sydd â neu sy'n rhannu cyfrifoldeb rhiant am y plentyn neu sydd â gofal am y plentyn **NEU** yn rhoi'r rhesymau pam nad ydych wedi hysbysu'r holl bersonau neu nad ydych wedi darparu enwau a chyfeiriadau'r holl bersonau, gyda'ch cais am apêl.

Rhiant Un

Llenwch y manylion ar gyfer Rhiant Un dim ond os yw'r wybodaeth yn wahanol i'r person sy'n gwneud yr apêl a enwir yn Adran 2 uchod.

Teitl: Cyfenw: Enwau Cyntaf:

Perthynas â'r plentyn: (er enghraifft, rhiant, gwarcheidwad, rhiant maeth neu berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant)

Cyfeiriad (a chod post):

Rhif ffôn dydd:

min nos:

Symudol:

Ffacs:

Cyfeiriad e-bost:

Rhiant Dau

Teitl:	Cyfenw:	Enwau Cyntaf:
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

Perthynas â'r plentyn: (er enghraifft, rhiant, gwarcheidwad, rhiant maeth neu berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant)

Cyfeiriad (a chod post):

Rhif ffôn dydd:

min nos:

Symudol:

Ffacs:

Cyfeiriad e-bost:

Unigolion neu sefydliadau eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant

A oes unrhyw berson neu sefydliad arall yn rhannu cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn?

Oes

Nac oes

Os felly rhowch enw a chyfeiriad pob unigolyn neu sefydliad:

Adran 4 – Gwybodaeth am unrhyw gynrychiolydd a benodwyd gan y person sy'n gwneud yr apêl

Nid oes rhaid i chi gael cynrychiolydd, ond os oes gennych un, rhowch eu manylion isod:

Teitl:	Cyfenw:	Enwau Cyntaf:
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

Sefydliad, os o gwbl:

Cyfeiriad (a chod post):

Rhif ffôn dydd:

min nos:

Symudol:

Ffacs:

Cyfeiriad e-bost:

A gw eich cynrychiolydd yn gyfreithiol gymwys?

Ydy

Nac ydy

Adran 5 – Dywedwch wrthym pwy y dymunwch iddynt dderbyn gwybodaeth am yr apêl

Dywedwch wrthym pwy y dymunwch iddynt dderbyn gwybodaeth am yr apêl:

Y person sy'n gwneud yr apêl

Cynrychiolydd

Gallwn anfon papurau a dogfennau at **un** o'r bobl a enwir ar y ffurflen hon yn unig.

Er mwyn arbed costau ac i ymdrin â'ch apêl mor gyflym â phosibl, hoffem gysylltu â chi ar e-bost.

Os byddwch yn fodlon inni wneud hynny, rhowch groes yma.

Adran 6 – Dywedwch wrthym am y llythyr penderfyniad oddi wrth yr Awdurdod Lleol

Rhaid i'r Awdurdod Lleol roi hysbysiad ysgrifenedig i'r rhiant am ei benderfyniad a'r hawl i apelio i'r Tribiwnlys. Rhaid i'r Awdurdod Lleol hefyd roi rhybudd ysgrifenedig i'r plentyn.

Pa Awdurdod Lleol a wnaeth y penderfyniad yr ydych chi yn apelio yn ei erbyn?

Ar ba ddyddiad wnaethoch chi (y rhiant neu'r plentyn, os yw'r plentyn yn gwneud yr apêl) dderbyn llythyr yr Awdurdod Lleol yn rhoi'r penderfyniad hwnnw i chi?

Adran 7 – Dywedwch wrthym os yw'r Awdurdod Lleol wedi gwneud Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig y plentyn

A oes gan y plentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig?

Os **'OES'**, ar ba ddyddiad y gwnaed y datganiad?

Adran 8 – Dywedwch wrthym beth rydych yn apelio yn ei erbyn

Ticiwch y blwch neu'r blychau sy'n berthnasol i'ch apêl i ddweud wrthym beth rydych yn apelio yn ei erbyn.

a) Gwrthod cynnal asesiad neu ailasesiad statudol

Gofynnwyd i'r Awdurdod Lleol asesu'r plentyn gan y rhiant (neu'r ysgol) ond gwrthododd.

Mae gan y plentyn ddatganiad yn barod a gofynnodd y rhiant (neu'r ysgol) i'r Awdurdod Lleol ail-asesu'r plentyn ond mae'r Awdurdod Lleol wedi gwrthod gwneud hynny.

b) Gwrthod gwneud datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig

Bu'r Awdurdod Lleol yn asesu'r plentyn ond gwrthododd wneud datganiad.

c) Cynnwys Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig

Gwnaeth yr Awdurdod Lleol ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ar gyfer y plentyn, neu gwrthododd newid y datganiad ar ôl cynnal ailasesiad ffurfiol a:

Rwyf yn anghytuno â'r hyn y mae rhan 2 y datganiad yn ei ddweud am anghenion addysgol arbennig y plentyn.

Rwyf yn anghytuno â'r hyn y mae rhan 3 y datganiad yn ei ddweud am y cymorth neu ddarpariaeth addysgol y dylai'r plentyn ei gael.

Rwyf yn anghytuno â'r ysgol a enwir yn rhan 4 y datganiad neu nid yw'r Awdurdod Lleol wedi enwi ysgol yn rhan 4 y datganiad.

d) Newid ysgol lle mae'r datganiad yn o leiaf blwydd oed

Roedd y datganiad yn o leiaf blwydd oed pan ofynnodd y rhiant i'r Awdurdod Lleol newid yr ysgol a enwyd, ond gwrthododd. (Dim ond lle nad yw cais blaenorol wedi cael ei wneud yn ystod y 12 mis diwethaf ac mae'r ysgol y gofynnir amdani yn cael ei chynnal (ei hariannu) gan yr Awdurdod Lleol).

e) Penderfyniad i beidio â chynnal datganiad

Penderfynodd yr Awdurdod Lleol ddileu datganiad y plentyn.

Adran 9 – Os yw'r apêl am yr ysgol a enwir yn y datganiad, rhaid i chi ddweud wrthym am yr ysgol y byddai'n well gennych iddi gael ei henwi

Os nad yw'r apêl yn ymwneud â'r ysgol peidiwch â llenwi'r adran hon ac ewch i adran 11.

Os ydych yn apelio yn erbyn yr ysgol a enwyd yn rhan 4 rhowch enw a chyfeiriad yr ysgol y byddai'n well gennych iddi gael eu henwi:

Enw'r ysgol:

Cyfeiriad (a chod post):

Os nad ydych yn gallu enwi ysgol benodol, disgrifiwch y math o ysgol yr hoffech chi i'r plentyn fynd iddi yn y blwch isod.

Adran 10 – Os yw'r apêl am yr ysgol a enwir yn y datganiad, rhaid i chi anfon yr wybodaeth ganlynol atom

Os yw'r ysgol yn cael ei chynnal (ei hariannu gan yr ALL):

- Rhaid i chi ddweud wrth Bennaeth yr ysgol yr hoffech enwir ysgol yn natganiad eich plentyn. **Mae'n rhaid i chi gyflwyno copi o'ch llythyr gyda'ch Cais am Apêl.**
- Mae'n rhaid i chi ddweud wrth yr Awdurdod Lleol sy'n cynnal (ariannu'r) ysgol yr hoffech enwir ysgol yn natganiad eich plentyn. **Mae'n rhaid i chi gyflwyno copi o'ch llythyr gyda'ch Cais am Apêl.**

Os yw'r ysgol yn ysgol annibynnol neu yn ysgol arbennig nad yw'n cael ei chynnal:

- Mae'n rhaid i chi ddweud wrth berchennog yr ysgol yr hoffech enwir ysgol yn natganiad eich plentyn. **Mae'n rhaid i chi gyflwyno copi o'ch llythyr gyda'r Cais am Apêl.**
- Rhaid i chi ddarparu cadarnhad ysgrifenedig gan yr ysgol bod ganddi le ar gael ar gyfer y plentyn. **Mae'n rhaid i chi gyflwyno copi o'ch llythyr gyda'r Cais am Apêl.**

Adran 11 – Dywedwch wrthym am eich rhesymau am apelio a’r canlyniad a ddymunwch

Esboniwch y rhesymau dros eich apêl a rhowch yr holl wybodaeth i ni a deimlwch sy’n bwysig. Mae’n rhaid i chi roi digon o resymau er mwyn i ni ymdrin â’ch apêl ac fel y gall yr Awdurdod Lleol ymateb i’ch apêl. Mae ein canllaw **Sut i Apelio** yn dweud wrthyhych pa wybodaeth y dymunwn ni i chi ei rhoi i ni.

Gallwch ddefnyddio’r bwlch yma a pharhau ar ddalen ar wahân os oes angen.

Adran 12 – Dywedwch wrthym am y camau, os o gwbl, a gymerwyd eisoes i ddatrys yr anghydfod

Gallwch ddefnyddio’r bwlch yma a pharhau ar ddalen ar wahân os oes angen.

Adran 13 – Cydgrynhoi Apeliadau Anghenion Addysgol Arbennig a Hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd

Pe baem yn derbyn mwy nag un apêl am yr un plentyn ar unrhyw un adeg rydym yn debygol o geisio cydgrynhoi'r apeliadau fel eu bod yn cael eu clywed yr un pryd.

Rydym hefyd yn delio gyda hawliadau am Wahaniaethu ar sail Anabledd mewn ysgolion. Os hoffech i ni anfon copi o'n ffurflen Hawliadau a'n llyfryn "Gwahaniaethu ar sail Anabledd mewn Ysgolion" atoch ticiwch y blwch.

Os oes Hawliad Gwahaniaethu ar sail Anabledd sy'n bodoli eisoes ar gyfer y plentyn, hoffech chi i'r apêl gael ei chlywed yr un pryd? Hoffwn Na hoffwn

Adran 14 – Gwybodaeth Monitro

Byddai o gymorth i ni pe gallech ddewis un o'r canlynol. Nid oes rhaid i chi, ond mae'r wybodaeth yn rhoi ystadegau defnyddiol i ni. Rydym yn cadw'r holl wybodaeth yn gyfrinachol. Rydym wedi cofrestru o dan y Ddeddf Diogelu Data.

Tarddiad ethnig y plentyn yw:

Bangladeshaid Affricanaidd Du Caribïaidd Du Du Arall
Tseiniaidd Indiaidd Pacistanaidd Gwyn

Arall (Nodwch):

Os gallwn helpu trwy gyfieithu ein llythyrau atoch i laith arall neu i laith Braille, neu os oes gennych unrhyw anghenion arbennig eraill, fe wnawn ein gorau i gwrdd â'ch anghenion (yn rhad ac am ddim). Mae'n bosib y bydd hyn yn golygu y bydd yn cymryd mwy o amser i ni baratoi eich apêl. Dywedwch wrthym beth yw eich anghenion.

Adran 15 – Y Gwrandawriad

Os yw eich Apêl yn ymwneud â Gwrthod Asesu neu Wrthod Ail-asesu, bydd yn cael ei benderfynu ar sail papurau sy'n cael eu cyflwyno gan y ddau Barti. Mae hyn yn golygu na fydd angen i chi fod yn bresennol mewn Gwrandawriad Llafar.

Os ydych yn teimlo bod angen gwrandawriad llafar, ticiwch y blwch hwn.

Byddai'n ddefnyddiol cael rhywfaint o wybodaeth ynghylch pam fod gwrandawriad llafar yn angenrheidiol yn eich barn chi. Defnyddiwch daflen arall i nodi hyn.

Mathau eraill o apeliadau

Efallai y bydd yn bosibl i benderfynu eich apêl ar sail y papurau.

Mae hynny'n golygu y bydd y panel yn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynir gan bob parti a na fydd gwrandawriad llafar yn cymryd lle.

Os ydych yn hapus i'ch achos cael ei benderfynu ar sail y papurau, ticiwch y blwch hwn.

Adran 16 – Eich llofnod

Rhaid i'r cais am apêl gael ei lofnodi gennych chi (hynny yw'r sawl sy'n gwneud yr apêl)

Llofnod:

Enw: (MEWN PRIFLYTHRENNAU):

Dyddiad:

Adran 17 – Anfon y Cais am Apêl atom

Unwaith y byddwch wedi llenwi'r ffurflen, gwnewch yn siŵr eich bod wedi gwneud copi o'ch Cais am Apêl a'ch bod wedi ei lofnodi.

Anfonwch y Cais am Apêl a chopiau o'r holl ddogfennau perthnasol atom:

Triwbiwnlys Addysg Cymru
Uned Tribiwnlysoedd Cymru
Blwch SP 100
Llandrindod
LD1 9BW

E-bost: tribiwnlysaddysg@llyw.cymru

NEU

E-bost: tribunal.enquiries@llyw.cymru

Pwysig: Rhaid i Geisiadau am Apêl sy'n cael eu hanfon drwy e-bost gynnwys llofnod electronig y rhiant sy'n gwneud yr apêl neu, os rhoddir caniatâd, gan ei gynrychiolydd. Mewn achos lle mae plentyn yn gwneud yr apêl mae'n rhaid i'r e-bost gynnwys llofnod electronig y plentyn neu ei gyfaill achos.

Os bydd angen i chi gysylltu â ni ar y ffôn ein rhif yw: **0300 025 9800**

Rhestr wirio

Ym mhob achos, bydd angen i chi anfon y canlynol gyda'ch Cais am Apêl:

Llythyr yn cadarnhau eich bod wedi dweud wrth yr holl bobl a sefydliadau sydd wedi neu sy'n rhannu cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu wedi sydd â gofal am y plentyn, eich bod yn bwriadu gwneud apêl, **NEU**

Llythyr yn rhoi'r rhesymau pam nad ydych wedi hysbysu pob person neu nad ydych wedi darparu enwau a chyfeiriadau'r holl bersonau.

Unrhyw ddogfennau yr ydych yn dibynnu arnynt i gefnogi eich apêl.

Os yw'r apêl yn ymwneud â'r ysgol a enwir yn Rhan 4 y datganiad bydd angen i chi hefyd anfon y canlynol gyda'ch Cais am Apêl:

Os ydych yn gofyn am ysgol sy'n cael ei chynnal (ei hariannu gan Awdurdod Lleol):

Copi o'ch llythyr sy'n dweud wrth Bennaeth yr ysgol yr hoffech i'r ysgol gael ei henwi yn y datganiad.

Copi o'ch llythyr sy'n dweud wrth yr Awdurdod Lleol sy'n cynnal (ariannu) yr ysgol yr hoffech i'r ysgol gael ei henwi yn y datganiad.

Os ydych yn gofyn am ysgol annibynnol (ysgol nad yw'n cael ei hariannu gan Awdurdod Lleol) neu ysgol arbennig nad yw'n cael ei chynnal.

Copi o'r cadarnhad ysgrifenedig bod lle ar gael ar gyfer eich plentyn yn yr ysgol.